Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymru: Symud Tuag at Y Wlad sy'n Dysgu

Arolwg ar Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yng Nghymru 2007

Fiona Aldridge, Cerys Furlong a Swati Nettleship

Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 007-07
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2007

niace dysgu cymru
promoting adult learning
hyrwyddo addysg oedolion

UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 & AMCAN 3
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1 & OBJECTIVE 3
European Social Fund
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Cymru: Symud Tuag at Y Wlad sy'n Dysgu

Cynulleidfa Cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a sgiliau yng Nghymru.

Trosolwg Bydd NIACE yn gwneud arolwg blynyddol o gyfranogiad oedolion mewn addysg ar hyd a lled y DU. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r 2007 canlyniad ar gyfer Gymru. Mae'n cynnwys canfyddiadau ar gyfranogi mewn dysgu, bwriad i ddysgu yn y dyfodol, cymhelliad, buddiannau a rhwystrau i ddysgu.

Camau i'w cymryd Dim - er gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth

Cerys Furlong,
NIACE Dysgu Cymru,
33-35 Cathedral Road,
Caerdydd, CF11 9HB
Ffôn: 029 2037 0900

Copïau ychwanegol Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon a'r broses ymgynghorol at Cerys Furlong yn y cyfeiriad uchod.

Dogfennau cysylltiedig

Symud Ymlaen (2003)
Tuag at Ddyfodol o Ddysg (2002)

Cynhyrchwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan NIACE a NIACE Dysgu Cymru.

Mae gan NIACE a NIACE Dysgu Cymru gyfrifoldeb eang i hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes ar gyfer oedolion. Mae NIACE Dysgu Cymru'n gweithio i ddatblygu mwy o gyfranogi mewn addysg a dysgu, yn enwedig i'r rhai nad yw'n rhwydd iddynt oherwydd rhwystrau dosbarth, rhyw, oed, hil, iaith a diwylliant, anawsterau dysgu ac anableddau, neu brinder adnoddau ariannol. www.niacedc.org.uk

G/087/07-08
ISBN 978 0 7504 4267 1
Mai
CMK-22-04-030(111)
Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2007

Cynnwys

	Page
Crynodeb	3
Cyfranogi mewn dysgu	5
Bwriad i ddysgu yn y dyfodol	6
Bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â statws dysgu	6
Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â'r rhywiau	8
Cyfranogi mewn dysgu yn ôl rhyw	8
Bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl rhyw	9
Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â dosbarth economaidd-gymdeithasol	10
Cyfranogi mewn dysgu yn ôl dosbarth economaidd-gymdeithasol	10
Bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl dosbarth economaidd-gymdeithasol	11
Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas ag oed	13
Cyfranogi mewn dysgu yn ôl oedran	13
Bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl oedran	14
Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â statws cyflogaeth	15
Cyfranogi mewn dysgu yn ôl statws cyflogaeth	15
Bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl statws cyflogaeth	17

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â rhanbarthau a chenhedloedd y DU 18

Cyfranogi mewn dysgu yn ôl rhanbarthau Cymru 18

Cyfranogi mewn dysgu yn ôl cenhedloedd y DU 19

Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl rhanbarthau a chenhedloedd y DU 20

Cymhellion dysgu 22

Buddiannau dysgu 24

Rhwystrau i ddysgu 26

Mynediad i'r Rhyngrwyd 29

Atodiad: Nodiadau Technegol 31

Crynodeb

Yr arolwg hwn o gyfranogiad oedolion mewn addysg yw'r darlun cynhwysfawr cyntaf ers 2003o'r sefyllfa yng Nghymru. Mae'rdata hyn yn gweithredu fel dull o dystio symud tuag at dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gyfeirnodi perfformiad yng Nghymru mewn cymhariaeth â chenhedloedd eraill y DU a nodi meysydd pryder.

Mae'r data sy'n cael eu cyflwyno yma'n dangos darlun cymysg, gyda rhai canfyddiadau calonogol ac eraill sy'n llai felly. Y newyddion da yw bod cyfran oedolion at ei gilydd sy'n cyfranogi mewn dysgu wedi cynyddu ychydig o 42% yn 2003 i 43% yn 2007. Ar yr un pryd, cyfran yr oedolion sydd heb gyfranogi mewn dysgu ers gadael addysg lawn-amser wedi gostwng o 32% yn 2003 i 30% yn 2007 achyfranogi diweddar mewn dysgu wedi cynyddu ar hyd a lled Cymru.

Fodd bynnag, mae peth achos pryder hefyd. Ers 2003 mae'r bwlch mewn cyfranogiad rhwng dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol wedi ehangu fel bod oedolion yn nosbarthiadau economaidd-gymdeithasol AB (dosbarthiadau uchaf a chanol) a C1 (gweithwyr coler wen) erbyn hyn yn fwy tebygol o fod yn cyfranogi mewn dysgu na C2 (gweithwyr llafuriol medrus) a DE (sy'n cynnwys lled fedrus, dosbarthiadau gweithiol anfedrus a phensiynwyr). Mae hyn yn dangos yn glir bod y wahanfa ddysgu'n dal yn gryn her i'w goresgyn.

Mae'r darlun yn un cymysg hefyd pan ddaw i gyfranogi mewn dysgu mewn perthynas ag oed. Tra bo cyfranogi cyfredol neu ddiweddar mewn dysgu wedi cynyddu ymysg oedolion 17-24 oed (+2%) a 45-64 (+4%), mae wedi gostwng 2% o ran oedolion 25-44 oed a'r rhai 65 oed a hŷn. O dderbyn gwirionedd newid demograffig, y gyfradd enedigaethau ddisgynnol, gostyngiad yn llif dechreuwyr ifanc newydd i'r gweithlu, wedi'i gysylltu â chynyddu oed ymddeol a disgwyliad einioes hwy, bydd yn rhaid cael gwell cyfleoedd dysgu ar gyfer oedolion, gan gynnwys addysg a hyfforddiant perthnasol i waith, os yw nodau ffyniant economaidd a chymdeithasol i gael eu cyrraedd.

Eto mae'r data am gyfranogi mewn dysgu mewn perthynas â statws cyflogaeth yn dadlennu rhai canlyniadau calonogol a siomedig. Er y bu gostyngiad at ei gilydd mewn cyfranogi mewn dysgu ymysg oedolion sy'n ddi-waith (o 44% i 39%), yn gweithio rhan-amser (o 61% i 55%) a heb fod mewn gwaith cyflogedig (o 27% i 24%), bu cynnydd ymhlith oedolion sy'n gweithio amser llawn (o 52% yn 2003 i 57% yn 2007) ac mae cyfran y bobl wedi ymddeol sy'n cyfranogi mewn dysgu wedi aros yn gyson (20%).

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Os ydym i wella addysg, hyfforddiant a safon sgiliau'r Cymry, mae'r data sy'n cael eu cyflwyno yma'n dangos bod rhaid i ni roi o leiaf gymaint o bwyslais ar 'stoc' gweithlu heddiw ac yfory ag ar 'lif' newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur. Mae dysg yn arf grymus i ddatblygiad personol ac fel 'cam cyntaf' yn ôl i weithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Felly, mae'n peri pryder bod nifer yr oedolion di-waith sy'n dysgu wedi gostwng ers 2003 (-3%).

Yn fwy cadarnhaol, o edrych ar Gymru mewn perthynas â chenhedloedd eraill y DU, mae'n dangos bod Cymru'n dal i fod â 43% o ddysgwyr, sef y gyfran uchaf. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd ers 2003 (42%) er ei bod yn werth nodi bod Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi cofnodi cynnydd mwy sylweddol. O edrych ar ranbarthau Cymru mewn perthynas â gweddill y DU mae'n dangos mai cyfranogiad yn Ne-orllewin Cymru (48%) yw'r uchaf yn y DU gyfan.

Cyfranogi mewn dysgu

- Dengys arolwg 2007 bod 18% o oedolion yn dysgu ar hyn o bryd, gyda 43% wedi cyfranogi mewn rhyw weithgaredd dysgu yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Cynyddodd cyfran y dysgwyr presennol neu ddiweddar o 39% yn 2002 i 42% yn 2003 ac eto ychydig i 43% yn 2007. Fodd bynnag, tra bo cyfran y dysgwyr presennol wedi codi rhwng 2002 a 2003, syrthiodd yn ôl eto o 22% i 18% erbyn 2007.
- Ers 2002, bu dirywiad parhaol yng nghyfran yr oedolion sy'n dweud nad ydynt wedi gwneud unrhyw ddysgu ers gadael addysg lawn-amser. Gostyngodd y ffigur hwn o 39% yn 2002 i 32% yn2003, ac eto i 30% yn 2007.

Tabl 1 Cyfranogi mewn dysgu, cymharu 2002, 2003 a 2007

	2007 %	2003 %	2002 %
Dysgu presennol	18	22	20
Dysgu diweddar (yn y tair blynedd diwethaf)	25	20	20
Holl ddysgu presennol neu ddiweddar	**43**	**42**	**39**
Dysgu yn y gorffennol (dros dair blynedd yn ôl)	26	26	22
Dim ers gadael addysg lawn-amser/ddim yn gwybod	30	32	39
Sail bwysol	1,000	993	1,000

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Cymru: Symud Tuag
at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Bwriad i ddysgu yn y dyfodol

- Dywed 47% o oedolion yng Nghymru eu bod yn debygol o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf. Dywed 50% eu bod yn annhebygol o wneud hynny.
- Mae bwriad i ddysgu yn y dyfodol wedi cynyddu dros y tri arolwg o 38% yn 2002, i 43% yn 2003 ac eto i 47% yn 2007.
- Hefyd bu gostyngiad graddol yng nghyfran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn annhebygol o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf, o 58% yn 2002 i 54% yn 2003 i 50% yn 2007. Fodd bynnag, mae 42% oedolion yn credu eu bod yn annhebygol iawn o ddysgu yn y dyfodol, cynnydd o 4 y cant ers 2003, ond yn dal 6 y cant yn is nag yn 2002.

Tabl 2 Bwriadu mynd ati i ddysgu yn y dyfodol, cymharu 2002, 2003 a 2007

	2007 %	2003 %	2002 %
Yn debygol iawn	28	25	21
Yn eithaf tebygol	19	18	17
Cyfanswm yn debygol	**47**	**43**	**38**
Yn eithaf annhebygol	9	16	11
Yn annhebygol iawn	42	38	48
Cyfanswm yn annhebygol	**50**	**54**	**58**
Ddim yn gwybod	3	3	4
Sail bwysol	1,000	993	1,000

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â statws dysgu

- Mae arolwg eleni'n atgyfnerthu canfyddiadau'r blynyddoedd blaenorol, sy'n awgrymu fod cyfranogiad presennol yn effeithio ar y bwriad i ddysgu yn y dyfodol.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu
Mai 2007
Rhif y ddogfen 007-07

- Dywed 85% o ddysgwyr presennol eu bod yn debygol o fynd ati i ddysgu yn y dyfodol, o'i gymharu â dim ond 18% o'r rhai sydd heb gyfranogi ers gadael addysg lawn-amser. Fel cyferbyniad dim ond 15% o ddysgwyr presennol ddywedodd eu bod yn annhebygol o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf o'i gymharu â 78% o'r rhai sydd heb gyfranogi mewn dysgu ers gadael addysg lawn-amser.
- Ers 2003, mae bwriad i ddysgu yn y dyfodol wedi cynyddu ymysg oedolion ymhob categori o statws dysgu. Y cynnydd mwyaf oedd ymysg dysgwyr a fu (y rhai a gyfranogodd ddiwethaf mewn dysgu dros 3 blynedd yn ôl), lle cynyddodd cyfran yr oedolion sy'n debygol o ddysgu yn y dyfodol o 29% i 36%.

Tabl 3 Bwriadu mynd ati i ddysgu yn y dyfodol, yn ôl statws dysgu, cymharu 2003 a 2007

	2007					2003			
	Cyfanswm	Dysgwyr presennol	Dysgwyr diweddar	Dysgwyr a fu	Dim/Ddim yn gwybod	Dysgwyr presennol	Dysgwyr diweddar	Dysgwyr a fu	Dim/Ddim yn gwybod
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Yn debygol iawn	28	64	38	17	8	62	30	12	6
Yn eithaf tebygol	19	21	29	19	10	20	36	16	8
Cyfanswm yn debygol	**47**	**85**	**67**	**36**	**18**	**83**	**66**	**29**	**13**
Yn eithaf annhebygol	9	6	10	13	5	7	17	24	16
Yn annhebygol iawn	42	8	20	50	73	8	15	45	68
Cyfanswm yn annhebygol	**50**	**15**	**29**	**63**	**78**	**15**	**31**	**68**	**83**
Ddim yn gwybod	3	-	4	2	4	3	3	3	3
Sail bwysol	1,000	179	252	263	305	218	198	263	307

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â'r rhywiau

Cyfranogi mewn dysgu yn ôl rhyw

- Mae dynion a merched yn debygol i'r un graddau o fod yn cyfranogi mewn dysgu (43%).
- Ers 2003, cynyddodd cyfranogiad dynion a merched fel ei gilydd mewn dysgu un y cant. O fewn hyn, fodd bynnag, mae cyfran y dysgwyr presennol wedi gostwng, yn enwedig ymysg merched. O ganlyniad, mae dynion erbyn hyn yn fwy tebygol o fod yn ddysgwyr presennol na merched - yn 2003, y gwrthwyneb oedd yn wir.
- Mae cyfran y dynion sydd heb gyfranogi mewn dysgu ers gadael addysg lawn-amser wedi aros yn gyson ers 2003, sef 30%; tra bo cyfran y merched wedi gostwng o 33% i 31%.

Tabl 4 Cyfranogi mewn dysgu, yn ôl rhyw, cymharu 2003 a 2007

	2007			2003	
	Cyfanswm %	**Dynion %**	**Merched %**	**Dynion %**	**Merched %**
Dysgu presennol	18	19	17	21	23
Dysgu diweddar (yn y tair blynedd diwethaf)	25	24	26	21	19
Holl ddysgu presennol neu ddiweddar	**43**	**43**	**43**	**42**	**42**
Dysgu a fu (dros dair blynedd yn ôl)	26	27	26	28	25
Dim ers gadael addysg lawn-amser/ ddim yn gwybod	30	30	31	30	33
Sail bwysol	1,000	478	522	482	511

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl rhyw

- Dywed 51% o ferched a 42% o ddynion eu bod yn debygol o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf.
- Mae cyfran y dynion oedd yn mynegi bwriad i fynd ati i ddysgu wedi gostwng ychydig ers 2003 (-1%), tra bo cyfran y merched wedi cynyddu o 44% i 51%.
- Ers 2003, mae cyfran y dynion sy'n annhebygol o ddysgu o gwbl yn y dyfodol wedi cynyddu ychydig o 54% i 55%, tra bo cyfran y merched wedi gostwng yn fwy sylweddol o 53% i 46%.

Tabl 5 Bwriadu mynd ati i ddysgu yn y dyfodol, yn ôl rhyw, cymharu 2003 a 2007

	2007			2003	
	Cyfanswm %	**Dynion %**	**Merched %**	**Dynion %**	**Merched %**
Yn debygol iawn	28	26	30	25	25
Yn eithaf tebygol	19	16	21	18	19
Cyfanswm yn debygol	**47**	**42**	**51**	**43**	**44**
Yn eithaf annhebygol	9	12	6	19	13
Yn annhebygol iawn	42	43	40	35	40
Cyfanswm yn annhebygol	**50**	**55**	**46**	**54**	**53**
Ddim yn gwybod	3	3	3	3	3
Sail bwysol	1,000	478	522	482	511

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â dosbarth economaidd-gymdeithasol

Cyfranogi mewn dysgu yn ôl dosbarth economaidd-gymdeithasol

- Mae dosbarth economaidd-gymdeithasol yn benderfynydd allweddol o gyfranogiad oedolion mewn addysg.
- Mae oedolion yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol uchaf (AB) yn fwy na dwywaith mor debygol o fod yn dysgu â'r rhai yng ngrwpiau DE. Yn ogystal, nid yw hanner DE (50%) wedi cyfranogi mewn dysgu ers gadael addysg lawn-amser, o'i gymharu â dim ond 10% o AB.
- Mae'r bwlch mewn cyfranogiad rhwng dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol wedi lledu ers 2003 gyda mwy o oedolion yn nosbarthiadau ABC1 (+5%), a llai o oedolion yn nosbarthiadau C2DE (-1%) yn cyfranogi mewn dysgu.
- Ymysg holl grwpiau, gostyngodd cyfran yr oedolion yn hysbysu cyfranogi presennol mewn dysgu rhwng 2003 a 2007, gyda chyfranogiad ymysg oedolion yn y dosbarth C2 yn dirywio 10 pwynt o 34% i 24%.
- Mae cyfran yr oedolion sydd heb wneud unrhyw ddysgu ychwanegol ers gadael addysg lawn-amser wedi gostwng yn nosbarthiadau economaidd-gymdeithasol AB (o 17% i 10%) a C1 (o 20% i 17%) tra bo wedi cynyddu yn nosbarthiadau C2 (o 28% i 30%) a DE (o 49% i 50%).

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Tabl 6 Cyfranogi mewn dysgu, yn ôl dosbarth economaidd-gymdeithasol, cymharu 2003 a 2007

	2007					2003			
	Cyfanswm %	**AB %**	**C1 %**	**C2 %**	**DE %**	**AB %**	**C1 %**	**C2 %**	**DE %**
Dysgu presennol	18	30	24	15	9	35	34	18	11
Dysgu diweddar (yn y tair blynedd diwethaf)	25	28	38	24	17	19	22	22	17
Holl ddysgu presennol neu ddiweddar	**43**	**58**	**63**	**39**	**26**	**54**	**57**	**40**	**28**
Dysgu a fu (dros dair blynedd yn ôl)	26	32	21	31	24	30	24	33	22
Dim ers gadael addysg lawn-amser/ ddim yn gwybod	30	10	17	30	50	17	20	28	49
Sail bwysol	1,000	189	224	219	366	168	225	248	352

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.
Mae Gradd A yn cynnwys y dosbarthiadau uchaf a chanol uchaf ac, yn gyffredinol, bydd yn cael ei ddosbarthu gyda Gradd B, y dosbarthiadau canol. Mae Gradd C1 yn cynnwys y dosbarth canol isaf, yn aml yn cael eu galw'n weithwyr coler wen. Gyda dyfodiad cyfrifiadura a dirywiad gweithgynhyrchu mae'r grŵp hwn yn cynyddu. Mae Gradd C2 yn cynnwys gweithwyr llafuriol medrus a'u teuluoedd yn bennaf. Mae Gradd D yn cynnwys y dosbarth gweithiol lled-fedrus ac anfedrus.
Gradd E yw'r rhai ar lefel isaf cynhaliaeth, pensiynwyr a'r rhai dibynnol ar gynlluniau nawdd cymdeithasol yn bennaf.

Cymru: Symud Tuag
at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl dosbarth economaidd-gymdeithasol

- Mae oedolion yn nosbarthiadau economaidd-gymdeithasol AB a C1 (55% yr un) yn llawer mwy tebygol na'r rhai yn nosbarthiadau C2 a DE (42% a 41%) o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf.
- Ers 2003 mae cyfran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn debygol oddysgu yn y dyfodol wedi cynyddu ymysg y rhai yn nosbarthiadau economaidd-gymdeithasol AB (o 48% i 55%) a DE (o 31% i 41%) ond wedi gostwng ymysg y rhai yn nosbarthiadau C1 (o 59% i 55%) a C2 (o 43% i 42%).

Tabl 7 Bwriadu mynd ati i ddysgu yn y dyfodol, yn ôl dosbarth economaidd-gymdeithasol, cymharu 2003 a 2007

	2007					2003			
	Cyfanswm %	AB %	C1 %	C2 %	DE %	AB %	C1 %	C2 %	DE %
Yn debygol iawn	28	33	38	22	23	31	33	27	15
Yn eithaf tebygol	19	22	17	20	18	17	25	16	16
Cyfanswm yn debygol	**47**	**55**	**55**	**42**	**41**	**48**	**59**	**43**	**31**
Yn eithaf annhebygol	9	7	12	8	7	18	15	18	15
Yn annhebygol iawn	42	35	32	44	50	32	23	36	51
Cyfanswm yn annhebygol	**50**	**42**	**44**	**52**	**57**	**50**	**38**	**54**	**65**
Ddim yn gwybod	3	3	1	6	2	2	4	3	3
Sail bwysol	1,000	189	224	219	366	168	225	248	352

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.
Mae Gradd A yn cynnwys y dosbarthiadau uchaf a chanol uchaf ac, yn gyffredinol, bydd yn cael ei ddosbarthu gyda Gradd B, y dosbarthiadau canol. Mae Gradd C1 yn cynnwys y dosbarth canol isaf, yn aml yn cael eu galw'n weithwyr coler wen. Gyda dyfodiad cyfrifiadura a dirywiad gweithgynhyrchu mae'r grŵp hwn yn cynyddu. Mae Gradd C2 yn cynnwys gweithwyr llafuriol medrus a'u teuluoedd yn bennaf. Mae Gradd D yn cynnwys y dosbarth gweithiol lled-fedrus ac anfedrus.
Gradd E yw'r rhai ar lefel isaf cynhaliaeth, pensiynwyr a'r rhai dibynnol ar gynlluniau nawdd cymdeithasol yn bennaf.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas ag oed

Cyfranogi mewn dysgu yn ôl oedran

- Yn gyffredinol, mae cyfranogi mewn dysgu'n gostwng wrth heneiddio.
- Mae 70% o rai 17-24 oed yn ddysgwyr presennol neu ddiweddar, o'i gymharu ag ychydig dan hanner gweddill y boblogaeth sy'n gweithio a dim ond 14% o oedolion 65 oed a hŷn. Yn ogystal, dywed 50% o holl oedolion 65 oed a hŷn nad ydynt wedi cyfranogi mewn unrhyw ddysgu ers gadael addysg lawn-amser.
- Ers 2003, mae faint sy'n cyfranogi mewn dysgu ymysg oedolion 65 oed a hŷn wedi gostwng. Ar gyfer holl oedolion eraill mae cyfranogiad wedi cynyddu.

Tabl 8 Cyfranogi mewn dysgu, yn ôl oedran, cymharu 2003 a 2007

	2007					2003			
	Cyfanswm %	**17-24 %**	**25-44 %**	**45-64 %**	**65+ %**	**17-24 %**	**25-44 %**	**45-64 %**	**65+ %**
Dysgu presennol	18	35	21	16	5	43	25	18	9
Dysgu diweddar (yn y tair blynedd diwethaf)	25	35	28	28	10	25	25	20	7
Holl ddysgu presennol neu ddiweddar	**43**	**70**	**48**	**44**	**14**	**68**	**50**	**40**	**16**
Dysgu a fu (dros dair blynedd yn ôl)	26	11	25	29	36	15	27	28	30
Dim ers gadael addysg lawn-amser/ ddim yn gwybod	31	19	27	27	50	16	23	33	53
Sail bwysol	1,000	139	350	310	200	130	347	298	219

Sail: holl atebwyr

Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl oedran

- Mae bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn gostwng gydag oedran. Dywed saith deg y cant o rai 17-24 oed eu bod yn debygol o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf o'i gymharu â 59% o rai 25-44 oed, 46% o rai 45-64 oed, a dim ond 12% o'r rhai sy'n 65 oed a hŷn.
- Ers 2003, mae cyfran y rhai dros 65 sy'n bwriadu mynd ati i ddysgu dros y tair blynedd nesaf wedi disgyn ychydig. Mae bwriad i ddysgu yn y dyfodol wedi cynyddu ar draws holl grwpiau oedran eraill. O ganlyniad, mae'r bwlch rhwng bwriad oedolion iau ac oedolion hŷn i ddysgu wedi lledu.
- Ers 2003, y cynnydd mwyaf yn y bwriad i ddysgu yn y dyfodol fu ymysg y rhai 45-64 oed (+8%).

Tabl 9 Bwriadu mynd ati i ddysgu yn y dyfodol, yn ôl oedran, cymharu 2003 a 2007

	2007					2003			
	Cyfanswm %	**17-24 %**	**25-44 %**	**45-64 %**	**65+ %**	**17-24 %**	**25-44 %**	**45-64 %**	**65+ %**
Yn debygol iawn	28	47	35	25	8	47	31	21	6
Yn eithaf tebygol	19	23	24	20	4	20	26	17	6
Cyfanswm yn debygol	**47**	**70**	**59**	**46**	**12**	**68**	**56**	**38**	**13**
Yn eithaf annhebygol	9	15	9	7	6	11	16	18	13
Yn annhebygol iawn	42	12	28	45	83	9	24	40	72
Cyfanswm yn annhebygol	**50**	**27**	**37**	**52**	**88**	**28**	**40**	**58**	**85**
Ddim yn gwybod	3	4	4	2	-	3	3	3	1
Sail bwysol	1,000	139	350	310	200	993	130	298	219

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â statws cyflogaeth

Cyfranogi mewn dysgu yn ôl statws cyflogaeth

- Mae'r rhai sy'n gweithio (57% o oedolion mewn gwaith llawn-amser a 55% o oedolion mewn cyflogaeth ran-amser) yn llawer mwy tebygol o fod yn cyfranogi mewn dysgu na'r rhai sydd oddi allan i'r gweithlu.
- Mae 39% o oedolion di-waith[1], 24 % o'r rhai nad ydynt yn gweithio[2] ac 20% o oedolion wedi ymddeol hefyd yn dysgu.
- Ers 2003, bu gostyngiad yng nghyfranogiad holl grwpiau heblaw'r rhai mewn gwaith llawn-amser, lle cynyddodd cyfranogiad o 52% i 57%, ac oedolion wedi ymddeol, lle arhosodd cyfranogi mewn dysgu yn gyson. Mae cyfranogiad presennol wedi gostwng ar draws holl grwpiau.
- Nid yw bron i hanner oedolion di-waith wedi cyfranogi mewn unrhyw ddysgu ers gadael addysg lawn-amser. Cynyddodd y ffigur hwn o 34% yn 2003 i 48% yn 2007.

[1] Yn cynnwys ond y rhai a gofrestrwyd yn ddi-waith ac yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

[2] Yn eithrio'r rhai a gofrestrwyd yn ddi-waith.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Tabl 10 Cyfranogi mewn dysgu, yn ôl statws cyflogaeth, cymharu 2003 a 2007

	2007						2003				
	Cyfanswm	Llawn-amser	Rhan-amser	Di-waith	Heb fod yn gweithio	Wedi ymddeol	Llawn-amser	Rhan-amser	Di-waith	Heb fod yn gweithio	Wedi ymddeol
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Dysgu presennol	18	24	10	11	9	8	25	32	14	9	9
Dysgu diweddar (yn y tair blynedd diwethaf)	25	33	45	28	15	12	26	29	30	18	10
Holl ddysgu presennol neu ddiweddar	**43**	**57**	**55**	**39**	**24**	**20**	**52**	**61**	**44**	**27**	**20**
Dysgu a fu (dros dair blynedd yn ôl)	26	19	27	13	39	36	27	17	22	31	32
Dim ers gadael addysg lawn-amser/ ddim yn gwybod	30	24	18	48	37	44	22	21	34	42	48
Sail bwysol	1,000	379	121	66	161	231	380	100	53	143	273

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl statws cyflogaeth

- Mae 65% o bobl sy'n ddi-waith a 57% o oedolion mewn gwaith llawn-amser yn gweld eu hunain fel dysgwyr y dyfodol. Mae oedolion nad ydynt yn gweithio (45%) neu sy'n gweithio'n rhan-amser (47%) yn llai tebygol o ddysgu yn y dyfodol. Oedolion wedi ymddeol (18%) sydd leiaf tebygol o ddweud y byddant yn dychwelyd i ddysgu.
- Ers 2003, mae bwriad i ddysgu yn y dyfodol wedi cynyddu ar draws mwyafrif categorïau statws cyflogaeth, heblaw am y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser, lle bu gostyngiad o 55% i 47%.
- At ei gilydd, arhosodd cyfran y bobl wedi ymddeol sy'n debygol o fynd ati i ddysgu yn y dyfodol yn ddigyfnewid ers 2003. Fodd bynnag, aeth y gyfran sy'n dweud bod dysgu yn y dyfodol yn annhebygol iawn i fyny 10 y cant.

Tabl 11 Bwriadu mynd ati i ddysgu yn y dyfodol, yn ôl statws cyflogaeth, cymharu 2003 a 2007

	2007						2003				
	Cyfanswm	Llawn-amser	Rhan-amser	Di-waith	Heb fod yn gweithio	Wedi ymddeol	Llawn-amser	Rhan-amser	Di-waith	Heb fod yn gweithio	Wedi ymddeol
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Yn debygol iawn	28	35	28	34	23	11	31	31	29	18	10
Yn eithaf tebygol	19	23	19	31	22	7	23	24	27	20	8
Cyfanswm yn debygol	**47**	**57**	**47**	**65**	**45**	**18**	**54**	**55**	**57**	**38**	**18**
Yn eithaf annhebygol	9	10	10	7	9	6	18	16	17	18	14
Yn annhebygol iawn	**42**	**30**	**34**	**24**	**46**	**76**	**26**	**25**	**18**	**42**	**66**
Cyfanswm yn annhebygol	**50**	**40**	**44**	**31**	**55**	**81**	**44**	**40**	**35**	**60**	**80**
Ddim yn gwybod	3	3	9	3	-	1	2	5	8	2	2
Sail bwysol	1,000	379	121	66	161	132	380	100	53	143	273

Sail: holl atebwyr

Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol mewn perthynas â rhanbarthau a chenhedloedd y DU

Cyfranogi mewn dysgu yn ôl rhanbarthau Cymru

- Mae gwahaniaethau arwyddocaol ym mhatrymau cyfranogi mewn dysgu ar hyd a lled Cymru. Oedolion yn byw yn y De-orllewin (48%) a'r Canolbarth (46%) sydd fwyaf tebygol o fod yn dysgu (48%), yna oedolion yn y De-ddwyrain (43%). Atebwyr yn y Gogledd sydd leiaf tebygol o gyfranogi mewn dysgu (38%).
- Ers 2003, cynyddodd cyfranogiad yn y Canolbarth (29% i 46%) a'r De-orllewin (o 41% i 48%) ond arhosodd yr un fath yn y De-ddwyrain a gostyngodd yn y Gogledd (o 43% i 38%).

Tabl 12 Cyfranogi mewn dysgu, yn ôl rhanbarthau Cymru, cymharu 2003 a 2007

	2007					2003			
	Cyfanswm	Y Gogledd	Y Canolbarth	Y De-orllewin	Y De-ddwyrain	Y Gogledd	Y Canolbarth	Y De-orllewin	Y De-ddwyrain
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Dysgu presennol	18	17	21	16	19	27	12	14	23
Dysgu diweddar (yn y tair blynedd diwethaf)	25	22	25	32	24	15	17	28	20
Holl ddysgu presennol neu ddiweddar	**43**	**38**	**46**	**48**	**43**	**43**	**29**	**41**	**43**
Dysgu a fu (dros dair blynedd yn ôl)	26	24	13	26	29	28	28	24	26
Dim ers gadael addysg lawn-amser/ ddim yn gwybod	31	37	41	26	28	29	43	34	31
Sail bwysol	1,000	261	44	238	458	240	59	163	532

Sail: holl atebwyr

Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union. Mae angen cofio'r niferoedd llai sydd dan sylw wrth edrych ar ddata rhanbarthol, yn enwedig ar gyfer y Canolbarth. Felly, dylid trin y data gyda pheth gofal.

Cyfranogi mewn dysgu yn ôl cenhedloedd y DU

- Mae 43% o oedolion yng Nghymru yn ddysgwyr presennol neu ddiweddar, o'i gymharu â 42% yn Lloegr, 33% yn yr Alban a 40% yng Ngogledd Iwerddon.
- Ers 2003, cynyddodd cyfranogiad yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ond gostyngodd yn yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon y gwelwyd y cynnydd mwyaf (o 30% i 40%).
- Mae dadansoddiad o ganfyddiadau'r DU mewn adroddiad ar wahân, *The Road To Nowhere?* a gyhoeddwyd gan NIACE (Aldridge a Tuckett, 2007).

Tabl 13 Cyfranogi mewn dysgu, yn ôl cenhedloedd y DU, cymharu 2003 a 2007

	2007				2003				
	Cyfanswm	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Dysgu presennol	20	18	21	18	14	22	19	19	11
Dysgu diweddar (yn y tair blynedd diwethaf)	21	25	21	15	26	20	20	19	20
Holl ddysgu presennol neu ddiweddar	**41**	**43**	**42**	**33**	**40**	**42**	**39**	**38**	**30**
Dysgu a fu (dair blynedd yn ôl)	25	26	25	23	24	26	27	25	22
Dim ers gadael addysg lawn-amser/ ddim yn gwybod	34	31	33	44	35	32	34	38	47
Sail bwysol	4,916	1,000	4,138	421	139	993	3,956	547	146

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.
Mae angen cofio'r llai samplau dan sylw wrth edrych ar ddata perthnasol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, a dylid eu dehongli'n ofalus. Yn 2003 a 2007, chwyddwyd sampl Cymru bedair gwaith, er y cafodd ei lleihau i'w chyfran gywir wrth gyfrifo ffigurau'r DU gyfan.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol yn ôl rhanbarthau a chenhedloedd y DU

- Dywed 47% o oedolion yng Nghymru eu bod yn debygol o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf, mewn cymhariaeth â 46% ar hyd a lled y DU.
- Mae bwriad i ddysgu yn y dyfodol ar ei uchaf yn y De-orllewin (51%), ac ar ei isaf yn y Canolbarth (33%).
- Dywed 50% o oedolion yng Nghymru eu bod yn annhebygol o fynd ati i ddysgu yn y dyfodol, mewn cymhariaeth â 51% yn Lloegr, 60% yn yr Alban a 59% yng Ngogledd Iwerddon.

Tabl 14 Cyfranogi mewn dysgu a bwriad i ddysgu yn y dyfodol, yn ôl rhanbarthau a chenhedloedd y DU, 2007

	Sail bwysol	Cyfranogiad presennol/ diweddar	Bwriadu mynd ati i ddysgu yn y dyfodol	
			Cyfanswm yn debygol	Cyfanswm yn annhebygol
Y Deyrnas Unedig**	**4,916**	**41**	**46**	**52**
Cymru*	**1,000**	**43**	**47**	**50**
Y Gogledd	261	38	48	51
Y De-ddwyrain	458	43	46	51
Y De-orllewin	238	48	51	46
Y Canolbarth	44	46	33	62
Lloegr				
Llundain	601	45	52	44
De-orllewin	400	44	44	53
Dwyrain	444	46	49	49
De-ddwyrain	674	41	46	52
Gogledd-orllewin	578	42	47	50
Dwyrain Canolbarth Lloegr	374	37	46	53
Swydd Efrog a Glannau Humber	400	38	41	57
Gorllewin Canolbarth Lloegr	450	45	46	53
Gogledd-ddwyrain	215	34	45	52
Yr Alban	**421**	**33**	**37**	**60**
Gogledd Iwerddon	**139**	**40**	**40**	**59**

* Chwyddwyd sampl Cymru i 1,057 cyfweliad (sampl bwysol o 1,000) i alluogi cynhyrchu set o dablau ar wahân ar gyfer Cymru.

** Gostyngwyd sampl Cymru i'w chyfran gywir wrth gyfrifo ffigurau'r DU gyfan.

Sail: holl atebwyr

Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.

Mae angen cofio'r llai samplau dan sylw wrth edrych ar ddata perthnasol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, a dylid eu dehongli'n ofalus.

Yn 2003 a 2007, chwyddwyd sampl Cymru bedair gwaith, er y cafodd ei lleihau i'w chyfran gywir wrth gyfrifo ffigurau'r DU gyfan. Canrannwyd Tabl 8 yn llorweddol.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Cymhellion dysgu

- Gofynnwyd i atebwyr sydd wedi cyfranogi mewn dysgu yn y tair blynedd diwethaf nodi'r rhesymau dros ddechrau dysgu.
- Dywed 59% o ddysgwyr eu bod wedi dechrau dysgu am resymau cysylltiedig â gwaith. Cyfeiriodd 59% at resymau datblygiad personol a chyfeiriodd 22% at resymau addysg/dilyniant.
- Dywedodd 10% nad oeddent yn dewis dysgu, ond fod gofyn iddynt wneud hynny gan eu cyflogwr, am resymau proffesiynol neu fel gofyniad budd-dal.
- Cymhellwyd cyfran uwch o ferched na dynion i ddysgu trwy resymau cysylltiedig â gwaith (60% mewn cymhariaeth â 57%) a rhesymau datblygiad personol (62% mewn cymhariaeth â 54%). Roedd dynion yn fwy tebygol o gyfeirio at resymau addysg/dilyniant (23% mewn cymhariaeth â 21% o ferched).
- Yn 2007, cyfeiriodd cyfran uwch o atebwyr at resymau cysylltiedig â gwaith nag yn 2003 (59% o'i gymharu â 50%). Mae cynnydd arbennig o fawr ymysg merched, o 48% i 60%, yn golygu bod merched erbyn hyn gryn dipyn yn fwy tebygol na dynion o grybwyll rhesymau cysylltiedig â gwaith dros fynd ati i ddysgu.
- Rhoddodd llai o atebwyr resymau datblygiad personol dros fynd ati i ddysgu yn 2007 (64%) nag yn 2003 (59%). Mae'r gostyngiad yn arbennig o amlwg ymysg merched (o 73% i 55%), fel bod dynion erbyn hyn yn fwy tebygol na merched o fod yn dysgu er mwyn eu datblygiad personol eu hunain.
- Dengys arolwg 2007 ostyngiad o 13 y cant yng nghyfran yr oedolion sy'n rhoi rhesymau addysg/dilyniant fel cymhelliad i ddysgu.
- At ei gilydd, bu gostyngiad o 13 y cant ers 2003 mewn cymhelliad addysg/dilyniant i ddysgu. Dywedodd 23% o ddynion a 21% o ferched yn 2007 eu bod wedi dechrau dysgu am resymau addysg neu ddilyniant. Mae hyn yn ostyngiad yng nghyfran dynion (-14%) a merched (-13%) oedd yn rhoi'r ateb hwn.

Tabl 15 Rhesymau dros ddechrau dysgu, yn ôl rhyw, cymharu 2003 a 2007

	2007			2003		
	Cyfanswm %	Dynion %	Merched %	Cyfanswm %	Dynion %	Merched %
Rhesymau cysylltiedig â gwaith	59	57	60	50	54	48
Rhesymau datblygiad personol	59	54	62	64	55	73
Rhesymau addysg/ dilyniant	22	23	21	35	37	34
'Dim fy newis i'	10	10	10	7	8	6
Ddim yn gwybod	1	2	1	1	3	-
Sail bwysol	432	206	226	416	202	214

Sail: holl ddysgwyr presennol neu ddiweddar
Oherwydd bod atebwyr yn gallu nodi mwy nag un rheswm, daw colofnau i fwy na 100%.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Buddiannau dysgu

- Gofynnwyd i atebwyr sydd wedi cyfranogi mewn dysgu yn y tair blynedd diwethaf nodi unrhyw newidiadau neu fuddiannau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w dysgu.
- Mae 30% o ddysgwyr yn credu eu bod wedi datblygu fel unigolyn, mae 21% wedi cyfarfod pobl newydd a gwneud cyfeillion newydd, mae 20% yn crybwyll gwelliannau yn eu hunanhyder, mae 19% wedi cael neu'n disgwyl cael cymhwyster cydnabyddedig ac mae 14% wedi cael neu'n disgwyl cael swydd.
- Yn gyffredinol, cyfeiriodd dynion at fwy o fuddiannau cysylltiedig â gwaith na merched. Fodd bynnag, dywedodd cyfran uwch o ferched eu bod wedi cael/yn disgwyl cael swydd (17% mewn cymhariaeth ag 11% o ddynion). Mae hyn yn wahanol i ganlyniadau 2003, lle dywedodd mwy o ddynion na merched eu bod wedi cael neu'n disgwyl cael swydd.
- Roedd merched yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi datblygu fel unigolyn - 34% mewn cymhariaeth â 26%, er bod y bwlch hwn wedi culhau ers 2003.
- Ers 2003, mae cyfran y merched a ddywedodd fod eu hunanhyder wedi gwella wedi disgyn i'w hanner o 36% i 18%. Dros yr un cyfnod, ni ddisgynnodd cyfran y dynion yn hysbysu'r un budd ond 2 y cant o 24% i 22%.
- Ers 2003, bu gostyngiad mawr yng nghyfran y dysgwyr yn cyflawni, neu'n disgwyl cyflawni, cymhwyster cydnabyddedig am eu dysgu o 25% i 19%. Mae'r gostyngiad yn fwy amlwg ymysg merched (-9%) na dynion (-3%).
- Ar gyfer oedolion 17-24 oed a 65 a hŷn y budd o ddysgu a nodwyd amlaf oedd yn cyfarfod pobl newydd a gwneud cyfeillion newydd. Pobl 17-19 oed sydd fwyaf tebygol o fod sôn am well hunanhyder a'r rhai 65 oed a hŷn sydd leiaf tebygol.

Tabl 16 Prif newidiadau neu fuddiannau o ganlyniad i ddysgu, yn ôl rhyw, cymharu 2003 a 2007

	2007			2003		
	Cyfanswm %	Dynion %	Merched %	Cyfanswm %	Dynion %	Merched %
Rwyf wedi datblygu fy hun fel unigolyn	30	26	34	26	20	32
Rwyf wedi cyfarfod pobl newydd/ gwneud cyfeillion newydd	21	19	23	23	21	25
Mae fy hunanhyder wedi gwella	20	22	18	30	24	36
Rwyf wedi cael/ yn disgwyl cael cymhwyster cydnabyddedig	19	21	17	25	24	26
Rwyf wedi cael/yn disgwyl cael swydd	14	11	17	16	20	13
Sail bwysol	432	206	226	416	202	214

Sail: holl ddysgwyr presennol neu ddiweddar
Oherwydd bod atebwyr yn gallu nodi mwy nag un rheswm, daw colofnau i fwy na 100%.
Dim ond newidiadau/buddiannau a grybwyllwyd gan 14% neu fwy o atebwyr a restrwyd.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Rhwystrau i ddysgu

- Gofynnwyd i atebwyr a ddywedodd nad oeddent yn debygol iawn o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf nodi'r prif ffactorau oedd yn eu hatal rhag dysgu.
- Teimla 22% o oedolion na allant ddysgu oherwydd gwaith neu bwysau eraill ar amser. Dywedodd 19% eu bod yn teimlo'n rhy hen i ddysgu, dywed 17% nad oes ganddynt ddiddordeb tra nad yw 13% yn teimlo'r angen i ddysgu mwyach. Dywedodd 10% o oedolion fod y gost yn ffactor oedd yn eu hatal rhag dysgu tra bo 6% yn cyfeirio at ofal plant/gofalu am eraill.
- Er bod cyfran yr oedolion yn dweud bod costau yn eu hatal rhag dysgu wedi disgyn rhwng 2002 a 2003 o 7% i 4%, yna fe gynyddodd dros ddwywaith i 10% rhwng 2003 a 2007. Fel rhwystr i ddysgu, mae'r gost yn tueddu i ddod yn llai pwysig gydag oedran.
- Er bod cyfran oedolion yn teimlo'n rhy hen i ddysgu wedi cynyddu rhwng 2002 a 2003 o 15% i 20%, bu gostyngiad bach yn 2007 i 19%. Fel rhwystr i ddysgu, mae teimlo'n rhy hen i ddysgu'n cynyddu gydag oedran - o 16% yn y rhai 55-64 oed, i 26% yn y rhai 65-74 oed, i 75% yn y rhai 75 a hŷn.
- Mae cyfran yr oedolion sy'n teimlo nad oes angen dysgu mwyach wedi cynyddu o 8% yn 2003 i 13% yn 2007.
- Rhwng 2002 a 2003, hanerodd cyfran y rhai sydd heb fod â diddordeb mewn dysgu (o 26% i 13%). Rhwng 2003 a 2007, cynyddodd eto i 17%.

Tabl 17 Prif ffactorau'n atal rhag dysgu, cymharu 2002, 2003 a 2007			
	2007 %	**2003 %**	**2002 %**
Pwysau gwaith/pwysau eraill ar amser	22	21	21
Rwy'n teimlo'n rhy hen	19	20	15
Dim diddordeb/dim eisiau	17	13	26
Rwy'n teimlo nad oes angen dysgu mwyach	13	8	10
Cost/arian/methu ei fforddio	10	4	7
Trefniadau gofal plant/gofalu am eraill	6	8	8
Sail bwysol	718	747	789

Sail: holl oedolion nad ydynt yn debygol iawn o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf.
Oherwydd bod atebwyr yn gallu nodi mwy nag un rheswm, daw colofnau i fwy na 100%.
Y rhwystrau a restrwyd yw'r rhai a grybwyllwyd gan 10% neu fwy o'r atebwyr a/neu a hysbyswyd mewn blynyddoedd blaenorol.

- Mae dynion (25%) yn fwy tebygol na merched (19%) o ddweud bod gwaith a/neu bwysau eraill ar amser yw ffactor sy'n eu hatal rhag dysgu. Lledodd y bwlch hwn ers 2003.
- Yn 2003, roedd dynion a merched yr un mor yn debygol o deimlo nad oedd unrhyw angen iddynt ddysgu mwyach (8%). Erbyn 2007, roedd cyfran yr atebwyr yn rhoi'r ateb hwn wedi cynyddu, yn enwedig ymysg dynion, lle'r oedd wedi cynyddu o 8% i 17%.
- Mae trefniadau gofal plant/gofalu am eraill yn dal yn fwy o rwystr i ferched (11%) nag i ddynion (2%), er bod cyfran yr atebwyr yn crybwyll y rhwystr hwn wedi cynyddu ar draws y ddau grŵp.
- Mae costau dysgu'n dal i beri mwy o bryder i ferched (12%) nag i ddynion (8%) gyda'r ddau grŵp yn fwy tebygol o weld hyn fel rhwystr yn 2007 nag a wnaethant yn 2003.

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Tabl 18 Prif ffactorau'n atal rhag dysgu, yn ôl rhyw, cymharu 2003 a 2007

	2007			2003	
	Cyfanswm %	Dynion %	Meched %	Dynion %	Meched %
Pwysau gwaith/pwysau eraill ar amser	22	25	19	22	20
Rwy'n teimlo'n rhy hen	19	17	22	19	21
Dim diddordeb/dim eisiau	17	18	15	14	12
Rwy'n teimlo nad oes angen dysgu mwyach	13	17	10	8	8
Cost/arian/methu ei fforddio	10	8	12	3	5
Trefniadau gofal plant/ gofalu am eraill	6	2	11	4	12
Sail bwysol	718	353	365	364	383

Sail: holl oedolion nad ydynt yn debygol iawn o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf
Oherwydd bod atebwyr yn gallu nodi mwy nag un rheswm, daw colofnau i fwy na 100%.
Y rhwystrau a restrwyd yw'r rhai a grybwyllwyd gan 10% neu fwy o'r atebwyr a/neu a hysbyswyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mynediad i'r Rhyngrwyd

- Cynyddodd mynediad i'r Rhyngrwyd yn sylweddol dros y blynyddoedd diweddar. Yn 2002 dim ond 38% o ymatebwyr yr arolwg ddywedodd fod ganddynt fynediad i'r Rhyngrwyd. Cynyddodd hyn i 45% yn 2003 ac, erbyn 2007, roedd wedi cynyddu eto i 55%.
- Dengys data am fynediad i'r Rhyngrwyd bod y wahanfa ddigidol yn dal i atgyfnerthu'r wahanfa ddysgu.
- Yn 2007, soniodd 58% o bobl gyda mynediad i'r Rhyngrwyd am gyfranogi presennol neu ddiweddar mewn dysgu, o'i gymharu â 25% o'r rhai heb fynediad.
- Ers 2003, ar gyfer oedolion gyda mynediad i'r Rhyngrwyd, mae cyfranogi mewn dysgu wedi gostwng o 61% i 58%, ond ni fu unrhyw newid mewn oedolion heb fynediad i'r Rhyngrwyd.
- Dywedodd 57% o atebwyr gyda mynediad i'r Rhyngrwyd eu bod yn debygol o fynd ati i ddysgu yn y dyfodol o'i gymharu â 36% o'r rhai heb fynediad i'r Rhyngrwyd.
- Ers 2003, bu cynnydd yng nghyfran yr oedolion heb fynediad i'r Rhyngrwyd sy'n dweud eu bod yn debygol o ddysgu yn y dyfodol o 29% i 36%. Fodd bynnag, mae llai o oedolion gyda mynediad i'r Rhyngrwyd yn dweud eu bod yn debygol o ddysgu yn y dyfodol (60% yn 2003 i 57% yn 2007).

Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu

Mai 2007

Rhif y ddogfen 007-07

Tabl 19 Cyfranogi mewn dysgu a bwriadu mynd ati i ddysgu yn y dyfodol, yn ôl mynediad i'r Rhyngrwyd, cymharu 2003 a 2007

	2007			2003	
	Cyfanswm %	Mynediad i'r Rhyngrwyd %	Dim Mynediad i'r Rhyngrwyd %	Mynediad i'r Rhyngrwyd %	Dim Mynediad i'r Rhyngrwyd %
Cyfranogi presennol/ diweddar mewn dysgu	43	58	25	61	25
Yn debygol o ddysgu yn y dyfodol	47	57	36	60	29
Yn annhebygol o ddysgu yn y dyfodol	50	39	63	37	69
Sail bwysol	1,000	546	454	469	525

Sail: holl atebwyr
Oherwydd pwysiad y sampl a thalgrynnu'r rhifau efallai na fydd rhai tablau'n dod i 100% union.
Oherwydd y samplau bychan o'u dadansoddi fel yr uchod, dylid trin y data gyda gofal.

Atodiad: Nodiadau Technegol

"Fe all dysgu olygu ymarfer, astudio neu ddarllen am rywbeth. Gall hefyd olygu cael eich dysgu, cyfarwyddo neu hyfforddi er mwyn i chi allu datblygu sgiliau, gwybodaeth, galluoedd neu ddealltwriaeth o rywbeth. Mae dysgu'n cael ei alw'n addysg neu hyfforddiant hefyd. Gallwch ei wneud yn rheolaidd (bob dydd neu bob mis) neu gallwch ei wneud am gyfnod byr. Gall fod yn llawn-amser, neu ran-amser, a gallwch ei wneud gartref, yn y gwaith, neu yn rhywle arall fel coleg. Nid yw dysgu'n gorfod arwain at gymhwyster. Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw ddysgu a wnaethoch, boed wedi cael ei orffen neu beidio."

Yn yr arolwg hwn, a wnaed gan RSGB ar ran NIACE, holwyd sampl bwysol o 4,916 o oedolion, 17 oed a hŷn yn y DU o 9 Chwefror i 14 Mawrth 2007. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau ar gyfranogiad oedolion mewn addysg, cymhwysedd iaith a dysgu, dysgu yn y gwaith a llythrennedd yn y cyfryngau. Seiliwyd yr adroddiad hwn ar sampl atodol bwysol o 1,000 o oedolion yng Nghymru ac mae'n ymwneud yn bennaf â chanfyddiadau'r ddau gwestiwn canlynol ar gyfranogi mewn dysgu.

Gan droi at ddysgu'n gyffredinol: Pa un o'r datganiadau hyn sydd fwyaf perthnasol i chi?

01: Ar hyn o bryd rwy'n gwneud rhyw weithgaredd dysgu

02: Rwyf wedi gwneud rhyw weithgaredd dysgu yn y 3 blynedd diwethaf

03: Rwyf wedi astudio neu ddysgu ond roedd hynny dros 3 blynedd yn ôl

04: Nid wyf wedi astudio na dysgu ers i mi adael addysg lawn-amser

Pa mor debygol ydych chi o fynd ati i ddysgu yn y 3 blynedd nesaf?

01: yn debygol iawn

02: yn eithaf tebygol

03: yn eithaf annhebygol

04: yn annhebygol iawn

Casglwyd data am gyfranogi mewn addysg oedolion yng Nghymru ymhob un o'r arolygon o gyfranogiad oedolion mewn addysg a wnaeth NIACE yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Yn 2002 a 2003, fodd bynnag, rhoddodd ELWa gyllid i chwyddo nifer yr atebwyr Cymreig bedair gwaith i sampl bwysol o 1,000 cyfweliad. Ar gyfer 2007, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gymorth ariannol i roi sampl atodol bwysol eto o 1,000 cyfweliad yng Nghymru.

Mae'r trydydd arolwg Cymru gyfan sylweddol ar gyfranogiad oedolion mewn addysg, dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn disgrifio'r sefyllfa bresennol yng Nghymru yn 2007 ac mae'n rhoi data tueddiadau am gyfranogi mewn addysg oedolion o arolwg 2003.

Wedi'i lansio yn ystod Wythnos Addysg Oedolion 2007, mae *Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu?* yn cyfannu adroddiad cyfochrog y DU gyfan *Road to Nowhere?* ac mae'n adeiladu ar *Symud Ymlaen* yr arolwg Cymru gyfan yn 2003, ac ar arolygon blaenorol NIACE o gyfranogi mewn addysg oedolion.

Drwy'r adroddiad hwn i gyd talgrynnwyd canrannau i'r rhif cyfan agosaf. Oherwydd hyn, a sensitifedd pwysiad, gall rhai categorïau yn y tablau sy'n dilyn ddod i ychydig yn fwy na neu lai na 100%. Hefyd, dylid trin unrhyw ganrannau a gyfrifwyd ar seiliau bach gyda gofal rhag ofn bod lwfans gwallau samplu helaeth. Canrannwyd tablau'n fertigol os na fydd yn dweud yn wahanol. Mewn tablau, mae *yn dangos nifer llai na 0.5 y cant ond mwy na sero, ac mae - yn dangos sero.